# Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19 a 2019/20

## Cyd-destun a chefndir

### Yr ysgol

Mae ysgol a chanolfan adnoddau Cae'r Drindod yn gyfleuster cyfrwng Saesneg yng Nghaerffili, ac mae'n rhan o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) ar gyfer De Ddwyrain Cymru. Mae Cae'r Drindod yn darparu addysg a chyfleusterau arbenigol ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 19 oed sydd ag ystod eang o anawsterau dysgu. Mae gan yr ysgol 168 o ddysgwyr ar y gofrestr, ac mae 38 y cant ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM). Y rhaniad rhwng y rhywiau ar gyfer disgyblion yw 69 y cant o fechgyn a 31 y cant o ferched.

### Aelodau staff addysgu ac arweinwyr dynodedig

Mae gan Cae'r Drindod bum arweinydd dynodedig, 30 o athrawon llawn-amser, pedwar o athrawon rhan-amser, 64 o gynorthwywyr addysgu llawn-amser a 32 o gynorthwywyr addysgu rhan-amser.

### Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd Cae'r Drindod £11,816 yn 2018/19 a £19,745 yn 2019/20.

## Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

### Hyfforddiant staff – paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd/datblygu arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| **Rheswm dros wariant:** | Cefnogi datblygiad arweinyddiaeth ar draws pob lefel, gan gynnwys aelodau presennol y tîm arwain a darpar arweinwyr y dyfodol. |
| **Gweithgareddau a gynhaliwyd:** | • Mentora a hyfforddi'r tîm arwain ehangach gan ddefnyddio proffiliau 'Colour Works'.<br>• Darparu hyfforddiant arweinyddiaeth gwell ar gyfer carfan o arweinwyr sy'n datblygu.<br>• Cyflwyno'r Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol, i garfan o Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol prif ffrwd ac arweinwyr ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD) .<br>• Roedd yr arweinydd dysgu proffesiynol wedi mynd i ddiwrnodau diwygio'r cwricwlwm a bwydo yn ôl i staff yr ysgol. |

| | |
|---|---|
| **Rheswm dros wariant:** | Cefnogi'r newidiadau sylweddol ar draws y sector ysgolion arbennig yng ngoleuni'r safonau proffesiynol newydd, canllawiau Cwricwlwm i Gymru, Ysgolion yng Nghymru fel Sefydliadau sy'n Dysgu a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). |
| **Gweithgareddau a gynhaliwyd:** | • Gweithio gydag ysgolion eraill i ddatblygu ystod o strategaethau i fynd i'r afael â'r heriau newydd hyn ar draws y clwstwr.<br>• Caniatáu i ddeiliaid Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (TLR) gael eu rhyddhau o'u dyletswyddau i ymgysylltu â'r cwricwlwm drafft ac addysgeg sy'n benodol i'r sector.<br>• Yr holl staff addysgu wedi'u rhyddhau ar gyfer diwrnod dysgu proffesiynol i ymgyfarwyddo â'r safonau proffesiynol a dogfennau drafft Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019.<br>• Cafodd yr un diwrnod dysgu proffesiynol ei gynnig hefyd i gynorthwywyr addysgu Lefel 3 i ystyried fersiwn ddrafft y safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu er mwyn nodi meysydd i'w datblygu i hysbysu prosesau rheoli perfformiad a hyfforddiant ysgol gyfan.<br>• Cyflwynwyd i bob cynorthwyydd addysgu y Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol i Gynorthwywyr Addysgu, a addaswyd ar gyfer y sector ysgol arbennig ehangach. |

## Effaith y grant ar staff ar draws yr ysgol

Mae'r grant dysgu proffesiynol  wedi galluogi amser rhyddhau a mynediad i ystod o gyfleoedd datblygu anffurfiol a ffurfiol i'r holl staff, gan gynnwys y tîm arwain a'r staff cymorth. Mae hefyd yn golygu bod modd canolbwyntio o'r newydd ar arweinwyr sy'n datblygu, gan roi'r sgiliau iddyn nhw ar gyfer eu llwybrau gyrfa yn y dyfodol. Mae'r amser rhyddhau ychwanegol ar gyfer athrawon wedi eu galluogi i ystyried agweddau pwysig ar eu hymarfer proffesiynol eu hunain a hefyd i ddarllen, dadansoddi a dechrau cymhwyso arweiniad y Cwricwlwm newydd i Gymru yn eu haddysgu.

Mae amser rhyddhau ar gyfer cynorthwywyr addysgu Lefel 3 wedi'u galluogi i fod yn llawer mwy gwybodus. Mae hefyd wedi eu datblygu fel grŵp proffesiynol cydlynus ac mae'r cysylltiadau â'r safonau proffesiynol wedi gwneud iddyn nhw feddwl yn fwy am sut y gallan nhw ddatblygu eu swyddogaethau pwysig yn yr ysgol.

## Effaith y grant ar ddysgwyr

Mae'r effaith ar ddysgwyr wedi bod mewn dau brif faes. Mae'r staff yn fwy rhydd o ran amserlennu, y cwricwlwm a dulliau addysgegol, gan arwain at addysgu hyd yn oed yn fwy arbenigol a phenodol i'r dysgwyr ym mhob dosbarth. Rydym yn meithrin diwylliant o arloesi, arbrofi a chydweithredu. Mae'r athrawon yn rhannu datblygiadau ar draws yr ysgol mewn 'Teachmeets' rheolaidd.

Mae'r ail ddull wedi'i sefydlu ers blynyddoedd lawer. Fel ysgol arbennig, rydym yn cynnwys ein dysgwyr ym mhob un o'r penderfyniadau a wnawn yn yr ysgol. Maen

nhw’n cyfrannu at brosesau’r ysgol gyfan o ran ein Adroddiad Hunan Werthuso ysgol gyfan a’r Cynllun Datblygu Ysgol ac maen nhw’n helpu’r ysgol i osod ei thargedau. Wrth inni addasu ein cwricwlwm a'n taith i alluogi egwyddorion y dull Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu, bydd llais a chyfranogiad y disgyblion yn cryfhau. Wrth inni ddatblygu ein cwricwlwm a sefydlu’r pedwar diben ymhellach yn ein dysgu a'n haddysgu, byddwn yn gwneud hyn ochr yn ochr â'n holl ddysgwyr.

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol  i’w cymhwyso ar draws yr ysgol

Y prif newid yw bod yr ysgol bellach yn edrych yn ehangach ar yr hyn mae dysgu proffesiynol yn ei olygu a'i bod bellach yn gallu arwain dysgu proffesiynol i fodloni ei gofynion ei hunan .

Dywedodd arweinydd dysgu proffesiynol yr ysgol:

'Erbyn hyn, rydym yn dibynnu llai ar sefydliadau allanol ac ‘arbenigwyr’ sy'n dod i'n hysgol i ddarparu hyfforddiant ac rydym yn datblygu mwy o ddull gweithredu mewnol a chlwstwr.’

Yn ogystal â darparu dysgu proffesiynol  yn fwy o fewn yr ysgol, mae rhwydweithiau cymorth, ffurfiol ac anffurfiol, yn cael eu hadeiladu yn yr ysgol drwy waith gyda’r tîm arwain ehangach, arweinwyr sy'n datblygu, staff addysgu a’r cynorthwywyr addysgu Lefel 3. Mae'r rhwydweithiau hyn, wrth iddyn nhw feithrin ffocws mwy penodol, yn arwain newid a datblygiadau mewn dysgu proffesiynol  ar draws yr ysgol.

Datblygiad pwysig arall fu ffurfio'r clwstwr ar gyfer arweinwyr dysgu proffesiynol. Er bod Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig De Cymru wedi bod yn cwrdd am nifer o flynyddoedd, mae’r clwstwr arweinwyr dysgu proffesiynol wedi cyflwyno lefel newydd o gyd-weithio rhwng ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn y rhanbarth Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

Wrth drafod y rhwydwaith clwstwr ar gyfer arweinwyr dysgu proffesiynol  dywedodd arweinydd  dysgu proffesiynol Cae’r Drindod:

'O'n safbwynt ni, mae cynnwys yr Unedau Cyfeirio Disgyblion yn ein clwstwr wedi bod yn bwysig. Er bod ein lleoliadau addysgol yn wahanol mewn sawl ffordd, rydym yn wynebu heriau a chyfleoedd cyfarwydd. Er bod y clwstwr wedi bod yn digwydd ers llai na blwyddyn, rydym eisoes yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd ac yn cefnogi ein gilydd.’

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i’w rhannu ag ysgolion eraill

Mae pwysigrwydd cael deialog broffesiynol yn aml ag ysgolion eraill yn y clwstwr wedi galluogi Cae’r Drindod i ehangu ei gorwelion fel ysgol.

Drwy sefydlu rôl yr arweinwyr dysgu proffesiynol ac ysgrifennu a gweithredu cynllun dysgu proffesiynol, mae'r ysgol bellach yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'n dymuno ei gyflawni a sut y bwriada ei gyflawni. Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar yr holl staff fel grŵp cyfannol ac wedi cynnwys pawb yn y broses o newid yn hytrach na'i gwneud yn broses 'o'r brig i lawr'. Pan mae pobl yn cael eu cynnwys maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn buddsoddi yn eu hunain yn y daith dysgu proffesiynol .

Ychwanegodd arweinydd dysgu proffesiynol Cae'r Drindod:

'Mae'r cyfle i rwydweithio gydag arweinwyr dysgu proffesiynol newydd eraill o bob rhan o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg a gwrando ar faterion a heriau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n wynebu'r sector cynradd ac uwchradd wedi fy ngalluogi i, fel arweinydd y clwstwr Uned Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion arbennig, i roi'r llwybr yr ydym yn ei ddilyn fel ysgol arbennig yn ei gyd-destun a'i weld yn gliriach.

Un wers bwysig a gafwyd oedd pa mor gefnogol a chymwynasgar y mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi bod drwy'r broses hon. Mae ymgysylltu â'r holl gyfarfodydd a'r diwrnodau gwybodaeth wedi rhoi dechrau da i ni fel ysgol i gwrdd â'r holl heriau a newidiadau newydd sydd o'n blaenau.'

Gellir dod o hyd i gynllun dysgu proffesiynol Cae'r Drindod yn http://www.trinityfieldsschoolandresourcecentre.co.uk/policies/default.htm

## Y camau nesaf

O ran y camau nesaf, bydd Cae'r Drindod:

- yn datblygu ymhellach ac yn ymwreiddio eu taith dysgu proffesiynol
- yn parhau i wella sut mae'r tîm arwain ehangach yn cyfathrebu a chyd-weithio, drwy gael sesiwn grŵp ar egwyddorion y 'Colour Works'
- yn parhau i ddatblygu arweinwyr sy'n datblygu
- yn arwain ar y Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol ar gyfer carfan o 20 Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol prif ffrwd ac arweinwyr newydd yn yr ysgol arbennig a'r sector UCD. Un nodwedd gyffrous o hyn fydd ffurfio perthynas broffesiynol newydd rhwng y ddau grŵp hyn.
- yn cefnogi rhai cynorthwywyr addysgu Lefel 3 ar eu taith darpar CALU neu eu taith i statws athro cymwysedig. Bydd y grŵp hwn hefyd yn cael ei gynnwys yn llawn ym mhob cyfle dysgu proffesiynol ar draws yr ysgol
- yn ceisio creu a gweithredu ei Chwricwlwm i Gymru ei hunan sy'n diwallu'r pedwar diben yn ogystal ag anghenion pob un o'i dysgwyr. Bydd hon yn broses gynhwysol, nid yn unig i bob aelod o staff ond hefyd i'r llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, dysgwyr a'r gymuned ehangach.
- yn parhau i fod hyd yn oed yn fwy effeithiol wrth ddatblygu i fod yn Sefydliad sy'n Dysgu a bodloni'r heriau newydd a nodwyd yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).